1907-2007
Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

Cynnig cipolwg ar faterion arolygu i rieni ac athrawon Rhondda Cynon Taf

Dydd Gwener 16 Mawrth 2007

Bydd Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru, yn cyfarfod â rhieni ac athrawon o Rhondda Cynon Taf mis yma i gryfhau ei gyswllt ag ysgolion lleol.

Bydd Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn arwain panel o Arolygwyr EM o Estyn mewn cyfarfod sy'n cael ei gynnal yng Nghanolfan Gynadledda ESIS, Nantgarw nos Lun 26 Mawrth.

Yn y cyfarfod, bydd Prif Arolygydd EM yn amlinellu'r canfyddiadau o'i hadroddiad blynyddol diweddar ac yn rhannu gwybodaeth am addysg a hyfforddiant yn Rhondda Cynon Taf. Bydd panel Estyn, ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yna'n ymateb i gwestiynau am faterion addysg a hyfforddiant.

Mae Estyn yn gwahodd rhieni ac athrawon o Rhondda Cynon Taf i wneud cais am docynnau am ddim i fod yn bresennol. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 6.30pm, a bydd lluniaeth ar gael o 6.00pm.

Dywed Susan Lewis: "Mae'r cyfarfod yn gyfle i gael gwybod sut gall arolygu wneud gwahaniaeth i ddysgwyr. Rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod â rhieni ac athrawon yn Rhondda Cynon Taf. Mae gan Estyn rôl bwysig wrth sicrhau bod addysg a hyfforddiant

o fudd i bob dysgwr, ac mae ein gwaith arolygu'n chwarae rhan allweddol wrth godi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant ar draws Cymru."

Dylai rhieni a staff sy'n dymuno cymryd rhan wneud cais i Estyn am docynnau – gan roi eu henwau, manylion cyswllt ac enwau eu hysgolion – drwy ffonio 029 2044 6464 (oriau swyddfa), drwy anfon e-bost i communications@estyn.gsi.gov.uk neu drwy'r post at Gina Carrington, Y Tîm Cyfathrebu, Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW.

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn cynnig gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.
- Mae Estyn yn arolygu:
  - ysgolion
  - lleoliadau meithrin a gynhelir neu a ariennir gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
  - addysg bellach;
  - dysgu oedolion a dysgu yn y gymuned;
  - gwasanaethau cymorth ieuenctid;
  - awdurdodau addysg lleol;
  - addysg a hyfforddiant athrawon;
  - dysgu yn y gwaith;
  - cwmnïau gyrfaoedd; ac
  - elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.
- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
communications@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464